**Polisi Diogelu Data**

Mai 2019

**POLISI DIOGELU DATA**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae S4C yn cadw data personol am ymgeiswyr swydd, cyflogeion, gweithwyr, gwylwyr, cyflenwyr ac unigolion eraill at amryw o ddibenion.

1.2 Mae S4C yn cydnabod y bydd trin data personol yn gywir ac yn gyfreithlon yn cynnal hyder yn y sefydliad ac yn darparu ar gyfer gweithrediadau llwyddiannus. Mae diogelu cyfrinachedd a chywirdeb data personol yn gyfrifoldeb hollbwysig yr ydym yn ei gymryd o ddifrif bob amser.

1.3 Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae S4C yn mynd ati i ddiogelu data personol a sicrhau bod staff yn deall y rheolau ynghylch defnyddio'r data personol y mae ganddynt fynediad iddynt drwy eu gwaith.

1.4 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl brosesau S4C sy'n ymwneud â data personol ni waeth ar ba gyfrwng y caiff y data eu storio neu p'un a yw'n ymwneud â chyn-gyflogeion neu gyflogeion presennol, gweithwyr, gwylwyr, cyflenwyr neu unrhyw unigolion eraill.

1.5 Yn unol â'r polisi hwn, mae'n ofynnol i staff sicrhau eu bod yn ymgynghori â'r SWYDDOG DIOGELU DATA cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch prosesu data newydd sylweddol er mwyn sicrhau bod camau cydymffurfio perthnasol yn cael eu cymryd.

1.6 Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am fonitro'r polisi hwn a'i roi ar waith. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y polisi hwn neu unrhyw sylwadau eraill, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data. Yn benodol, **rhaid** i'r staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data **bob amser** o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) Nid yw'n glir pa sail gyfreithlon y dylid dibynnu arni i brosesu data personol (gan gynnwys y buddiannau cyfreithlon a ddefnyddir gan S4C (gweler adran isod);

(b) Mae angen dibynnu ar ganiatâd a/neu ganiatâd penodol i brosesu data personol (gweler adran isod);

(c) Mae angen llunio hysbysiad preifatrwydd (gweler adran isod);

(ch) Os na wyddys am ba hyd y dylid cadw'r data personol sy'n cael eu prosesu neu os nad yw hynny'n glir (gweler adran isod);

(d) Nid yw'n glir pa fesurau diogelwch neu fesurau eraill y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn diogelu data personol (gweler adran isod);

(dd) Mae data personol yn cael eu trosglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler adran isod);

(e) Os cafwyd mynediad diawdurdod at ddata personol (adran 20 isod);

(f) Pan fydd newid sylweddol mewn gweithgarwch prosesu neu weithgarwch prosesu newydd mewn perthynas â data personol (gall fod angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data) (gweler adran isod);

(ff) Bwriedir i ddata personol gael eu defnyddio at ddiben gwahanol i'r diben y'u casglwyd;

(g) Os bwriedir cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â phrosesu awtomataidd gan gynnwys proffilio neu benderfyniadau awtomataidd (gweler adran isod).

## 2. Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob aelod o staff sy'n cynnwys, at y dibenion hyn, gyflogeion, gweithwyr dros dro ac asiantaeth, contractwyr eraill, interniaid a gwirfoddolwyr.

2.2 Mae'n rhaid i bob aelod o staff ymgyfarwyddo â'r polisi hwn a chydymffurfio â'i delerau.

2.3 Mae cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn orfodol. Mae'n rhaid i staff hefyd gydymffurfio ag unrhyw bolisïau a hysbysiadau preifatrwydd cysylltiedig. Gall unrhyw achos o fynd yn groes i'r Polisi Diogelu Data hwn arwain at gamau disgyblu.

2.4 Gall S4C ddiwygio'r polisi hwn neu ychwanegu polisïau a chanllawiau ychwanegol ato o bryd i'w gilydd.

## 2. 3. Diffiniadau

3.1 Yn y polisi hwn:

(a) Ystyr **data personol** yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion y gellir eu hadnabod, fel ymgeiswyr swydd, cyn-gyflogeion neu gyflogeion presennol, staff asiantaeth, contract neu staff eraill, gwylwyr, cyflenwyr a chysylltiadau marchnata. Mae hyn yn cynnwys unrhyw farn a fynegir am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau rhywun arall tuag at yr unigolyn.

(b) Ystyr **data personol categori arbennig** yw gwybodaeth sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau tebyg, aelodaeth o undeb llafur, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, cyfeiriadedd rhywiol, a data biometrig neu enetig. Dylai data personol sy'n ymwneud â throseddau a chollfarnau gael eu trin fel data personol categori arbennig hefyd.

(c) Ystyrir **prosesu data** yw unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â defnyddio data personol. Mae'n cynnwys cael gafael ar y data, ei gofnodi neu ei gadw, neu gyflawni unrhyw weithrediad neu gyfres o weithrediadau gan gynnwys trefnu, diwygio, adalw, defnyddio, datgelu, dileu neu ddinistrio'r data. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trosglwyddo data personol i drydydd partïon.

## 3. 4. Egwyddorion cyffredinol

4.1 Bydd S4C yn prosesu data personol yn unol â'r deddfau diogelu data cymwys a hawliau unigolion fel y nodir isod. Mae pob aelod o staff yn bersonol gyfrifol am gymhwyso Polisi Diogelu Data S4C.

4.2 Bydd S4C yn dilyn yr egwyddorion canlynol wrth brosesu data personol, gan sicrhau bod data personol:

(a) Yn cael ei brosesu mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw (Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder').

(b) Yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, clir a chyfreithlon yn unig ('Cyfyngu ar Ddibenion').

(c) Yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen mewn perthynas â'r dibenion prosesu ('Lleihau Data').

(ch) Yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru lle y bo angen ('Cywirdeb').

(d) Nad yw'n cael eu cadw ar ffurf sy'n caniatáu i unigolion gael ei adnabod am gyfnod hirach nag sydd ei angen at ddibenion prosesu'r data ('Cyfyngu ar Storio Data').

(dd) Yn cael eu prosesu'n ddiogel gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i'w diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon a cholled, dinistr neu ddifrod damweiniol ('Diogelwch, Uniondeb a Chyfrinachedd').

4.3 Mae S4C yn gyfrifol am yr egwyddorion diogelu data a restrir uchod ac mae'n rhaid iddo allu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny (yr 'Egwyddorion Atebolrwydd').

## 4. 5. Cyfreithlondeb, Tegwch a Thryloywder

5.1 Mae'n rhaid i ddata personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw mewn perthynas â'r unigolyn.

**Cyfreithlondeb**

5.2 Dylai staff sicrhau bod sail gyfreithiol dros brosesu data personol. Mae'r seiliau cyfreithiol dros brosesu fel a ganlyn:

(a) mae'r unigolyn wedi rhoi ei ganiatâd (gweler isod);

(b) mae angen prosesu'r data er mwyn cyflawni contract â'r unigolyn;

(c) i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol S4C;

(ch) i ddiogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn;

(d) i gyflawni tasg er budd y cyhoedd;

(dd) i gyflawni buddiannau cyfreithlon S4C, lle na chaiff y buddiannau hyn eu diystyru am fod y gweithgarwch prosesu yn peryglu buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol yr unigolyn/unigolion. Mae angen nodi'r rheswm dros brosesu data personol ar gyfer buddiannau cyfreithiol yn yr hysbysiadau preifatrwydd (gweler adran isod).

5.3 Os nad yw staff yn siŵr pa sail gyfreithiol sy'n gymwys i'r data personol y maent yn ei brosesu, dylent gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

5.4 Mae angen lefelau uwch o ddiogelwch ar ddata categori arbennig (gweler 3.1(b) uchod) a sail gyfreithiol bellach yn ogystal â'r rhai hynny sydd wedi'u hamlinellu yn adran 5.2 uchod er mwyn i brosesu fod yn gyfreithlon.

5.5 Fel arfer, y sail gyfreithiol bellach sy'n briodol ar gyfer prosesu data personol categori arbennig mewn perthynas â gwylwyr neu aelodau o'r cyhoedd ydy caniatâd penodol yr unigolyn. Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth am y sail gyfreithiol briodol dros brosesu data categori arbennig.

5.6 Fe fydd S4C hefyd yn prosesu data personol categori arbennig mewn perthynas â'i staff. Fel arfer, y sail gyfreithiol bellach sy'n briodol ar gyfer prosesu data personol categori arbennig staff fydd y ffaith ei fod yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â, neu weithredu hawliau ym maes cyfraith cyflogaeth, neu fod prosesu yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, er enghraifft monitor cydraddoldeb, osgoi neu ddatgelu gweithredoedd anghyfreithlon, diogelu'r cyhoedd yn erbyn anonestrwydd, diogelu plant a phobl fregus, atal twyll neu ddrwgdybiaeth o derfysgaeth neu wyngalchu arian. Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data am ragor o wybodaeth am y sail gyfreithiol briodol ar gyfer prosesu data personol categori arbennig. Yn ogystal, dylai staff dalu sylw arbennig i adran 12 isod.

**Tegwch a Thryloywder (Hysbysiadau Preifatrwydd)**

5.7 Mae cyfraith diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybodaeth fanwl a phenodol i unigolion ynglŷn â sut a pham mae eu data personol yn cael eu prosesu. Mae'n rhaid i ni roi gwybodaeth o'r fath drwy hysbysiadau preifatrwydd priodol.

5.8 Mae'n rhaid i hysbysiadau preifatrwydd fod yn gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd i'w cyrchu ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir fel bod unigolyn yn gallu eu deall yn hawdd.

5.9 Pa bryd bynnag y bydd S4C yn casglu data personol yn uniongyrchol gan unigolyn, bydd yn rhaid iddo roi hysbysiad preifatrwydd i'r unigolyn hwnnw sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan gyfraith diogelu data (gan gynnwys manylion y rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data, a sut a pham y bydd S4C yn defnyddio, yn prosesu, yn datgelu, yn diogelu ac yn cadw'r data personol hwnnw). Rhaid i'r hysbysiad preifatrwydd ei wneud yn glir beth yw'r sail gyfreithiol y dibynnir arni ynghyd â'r sail gyfreithiol ychwanegol priodol os ydy data categori arbennig yn cael ei brosesu. Mae'n rhaid i'r hysbysiad preifatrwydd gael ei roi y tro cyntaf y bydd yr unigolyn yn rhoi'r data personol i S4C. Fel arfer, bydd Polisi Preifatrwydd cyffredinol S4C yn briodol mewn perthynas â dibenion cyffredinol S4C ar gyfer casglu data personol. Dylai staff gyfeirio'r unigolyn at yr hysbysiad preifatrwydd hwn pan gaiff y data personol eu casglu. Mae'r polisi i'w weld yn http://www.s4c.cymru/polisi-preifatrwydd.

5.10 Pan gaiff data personol eu casglu'n anuniongyrchol (er enghraifft, gan drydydd parti neu ffynhonnell gyhoeddus), mae'n rhaid rhoi hysbysiad preifatrwydd i'r unigolyn, gan gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen o dan gyfraith diogelu data, cyn gynted â phosibl ar ôl casglu/derbyn y data ond heb fod yn hwyrach na'r ohebiaeth gyntaf â'r unigolyn neu o fewn mis i dderbyn y data personol (pa un bynnag sydd gynharaf), oni bai bod hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghyfartal. Fel yn 5.9 uchod bydd Polisi Preifatrwydd S4C fel arfer yn briodol mewn perthynas â'i ddibenion cyffredinol ar gyfer casglu data personol. Dylai staff gyfeirio'r unigolyn at y Polisi Preifatrwydd hwn pan fydd yn cysylltu gyntaf neu o fewn mis i dderbyn y data personol, pa un bynnag sydd gynharaf. Mae'r polisi hwn i'w weld yn http://www.s4c.cymru/polisi-preifatrwydd. Dylai staff hysbysu'r Swyddog Diogelu Data os yw hyn yn debygol o fod yn amhosibl neu'n debygol o olygu ymdrech anghymesur.

5.11 Mae'n rhaid i staff gadarnhau hefyd fod y data personol wedi'i gasglu gan y trydydd parti yn unol â chyfraith diogelu data ac ar sail sy'n ystyried y ffordd y bydd S4C yn mynd ati i brosesu'r data personol hynny.

5.12 Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data os oes angen llunio hysbysiad preifatrwydd neu os nad ydynt yn siŵr pryd y mae angen hysbysiad preifatrwydd.

## 5. 6. Cyfyngu ar ddibenion

6.1 Mae'n rhaid i ddata personol gael ei gasglu at ddibenion penodol, clir a chyfreithlon yn unig. Ni ddylai gael ei brosesu ymhellach mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.

6.2 Ni all staff ddefnyddio data personol at ddibenion newydd, dibenion gwahanol na dibenion sy'n anghydnaws â'r rhai a nodwyd pan gafwyd y data personol am y tro cyntaf, oni fydd staff wedi hysbysu'r unigolion o'r dibenion newydd a'r sail gyfreithiol y maent yn dibynnu arni (os mai caniatâd yw'r sail gyfreithiol hon, mae'n rhaid cael caniatâd priodol (gweler adran 14 isod).

## 6. 7. Lleihau data

7.1 Mae'n rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen mewn perthynas â'r dibenion prosesu.

7.2 Dim ond pan fydd angen iddynt gyflawni dyletswyddau eu swydd y dylai staff brosesu data personol. Ni ddylent gasglu gormod o ddata personol a dylent sicrhau, hyd eithaf eu gallu, fod unrhyw ddata personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol i'r dibenion a fwriadwyd.

7.3 Pan na fydd angen data personol mwyach at ddibenion penodol, mae'n rhaid i staff sicrhau bod y data hynny'n cael eu dileu neu eu bod yn ddienw yn unol â Pholisi Cadw Data S4C.

## 7. 8. Cywirdeb

8.1 Mae'n rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle y bo angen, dylai gael ei ddiweddaru. Dylai unrhyw ddata anghywir gael ei gywiro neu ei ddileu ar unwaith.

8.2 Bydd staff yn sicrhau bod y data personol y mae S4C yn eu defnyddio ac yn eu cadw yn gywir, yn gyflawn, yn gyfredol ac yn berthnasol i'r diben y'u cesglir. Mae'n rhaid i staff gadarnhau cywirdeb unrhyw ddata personol ar yr adeg y caiff eu casglu ac yn rheolaidd wedi hynny. Mae'n rhaid i staff gymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddiwygio data personol anghywir neu anghyfredol.

8.3 Mae'n rhaid i staff sicrhau bod data personol y mae S4C yn ei gadw amdanynt hwy yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen. Os bydd manylion personol neu amgylchiadau yn newid, dylai staff hysbysu'r ADRAN ADNODDAU DYNOL er mwyn iddynt ddiweddaru cofnodion S4C.

## 8. 9. Cyfyngu ar storio data (cadw data)

9.1 Ni ddylai data personol gael ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu i unigolion adnabod y data hwnnw am gyfnod hirach nag sydd ei angen at ddibenion prosesu'r data.

9.2 Ni ddylai staff gadw data personol ar ffurf sy'n galluogi adnabod unigolyn am gyfnod hirach nag sydd ei angen at y diben neu'r dibenion cyfreithlon y'i casglwyd yn wreiddiol gan S4C.

9.3 Mae S4C yn gweithredu Polisi Cadw Data er mwyn sicrhau bod data personol yn cael ei ddileu ar ôl cyfnod rhesymol pan nad oes ei angen mwyach at y dibenion y'i gadwyd.

9.4 Bydd staff yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddileu unrhyw ddata personol nad oes ei angen mwyach o systemau S4C, yn unol â Pholisi Cadw Data S4C. Mae hyn yn cynnwys gofyn i drydydd partïon ddileu data o'r fath lle y bo'n gymwys.

9.5 Bydd staff yn sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am ba hyd y caiff data ei storio a sut y caiff y cyfnod hwnnw ei bennu mewn unrhyw hysbysiad preifatrwydd cymwys (gweler 5.7 - 5.12 Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data os oes angen llunio hysbysiad preifatrwydd neu os nad ydynt yn siŵr pryd y mae angen hysbysiad preifatrwydd.

).

## 9. 10. Diogelwch, uniondeb a chyfrinachedd

10.1 Mae'n rhaid i ddata personol gael ei ddiogelu rhag unrhyw weithgarwch prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, neu unrhyw golled, dinistr neu ddifrod damweiniol drwy roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith.

10.2 Mae'n rhaid i S4C roi mesurau diogelwch rhesymol a phriodol ar waith i ddiogelu data personol rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, neu unrhyw golled, difrod neu ddinistr damweiniol.

10.3 Mae'n rhaid i S4C sicrhau bod data yn cael ei gadw'n ddiogel drwy ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd data personol, fel y'i diffinnir isod:

(a) Mae cyfrinachedd yn golygu mai dim ond y bobl y mae angen iddynt wybod ac sydd â'r awdurdod i'w ddefnyddio gall gael gafael ar ddata personol.

(b) Mae cywirdeb yn golygu bod data personol yn gywir ac yn addas at y diben prosesu.

(c) Mae argaeledd yn golygu bod defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael gafael ar y data personol pan fydd eu hangen arnynt at ddibenion awdurdodedig.

10.4 Bydd S4C yn datblygu, yn gweithredu ac yn cynnal mesurau diogelwch sy'n briodol i'r canlynol:

(a) ein maint, cwmpas a busnes;

(b) yr adnoddau sydd ar gael i ni;

(c) swm y data personol sy'n eiddo i ni neu sy'n cael eu cadw gennym ar ran eraill;

(ch) risgiau a nodwyd (gan gynnwys defnyddio amgryptio a ffugenwau (h.y. disodli gwybodaeth y gellir adnabod unigolyn ohoni yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag un dynodwr neu ffugenw artiffisial neu fwy er mwyn sicrhau na ellir adnabod yr unigolyn y mae'r data'n ymwneud ag ef heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol a gedwir ar wahân mewn man diogel) lle y bo'n gymwys).

10.5 Bydd S4C yn gwerthuso ac yn profi effeithiolrwydd y mesurau diogelwch hynny'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu'n ddiogel.

10.6 Mae staff yn gyfrifol am ddiogelu'r data personol a ddelir gan S4C.

10.7 Mae'n rhaid i staff gymryd gofal arbennig wrth ddiogelu data personol categori arbennig (gweler uchod) rhag colled neu fynediad, defnydd neu ddatgeliad anawdurdodedig.

10.8 Mae'n rhaid i staff ddilyn yr holl weithdrefnau a roddwyd ar waith gan S4C i ddiogelu data personol o'r adeg y caiff ei gasglu i'r adeg y caiff ei ddinistrio. Dim ond i ddarparwyr trydydd parti sy'n cytuno i gydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ac i roi mesurau digonol ar waith, fel y gofynnwyd, y gall staff drosglwyddo data personol (gweler adrannau 15. Cyfyngiadau ar drosglwyddo data a isod).

10.9 Mae'n rhaid i staff gydymffurfio â'r mesurau diogelwch gweinyddol, ffisegol a thechnegol a weithredir ac a gynhelir, a pheidio â'u diystyru, yn unol â chyfraith diogelu data a safonau perthnasol i ddiogelu data personol.

## 10. 11. Atebolrwydd

11.1 Mae'n rhaid i S4C roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data (a nodir yn uchod). Mae S4C yn gyfrifol am gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a rhaid iddo allu dangos ei fod yn gwneud hynny.

11.2 Mae'n rhaid i S4C roi adnoddau a rheolaethau digonol ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data a'i fod yn gallu dogfennu'r gydymffurfiaeth honno gan gynnwys:

(a) penodi Swyddog Diogelu Data cymwys;

(b) diogelu data o'r cychwyn ac yn ddiofyn (by design and default) wrth brosesu data personol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfau diogelu data cymwys (gweler adran isod);

(c) cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch prosesu data, lle mae'r gweithgarwch prosesu hwnnw yn peri risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion. Dylid cynnal asesiadau o'r fath ar gyfer pob rhaglen newid busnes neu system fawr sy'n cynnwys prosesu data personol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â mentrau neu dechnoleg newydd (gweler adran isod);

(ch) cynnwys diogelu data mewn dogfennau, polisïau a gweithdrefnau mewnol gan gynnwys y Polisi Diogelu Data hwn;

(d) darparu hyfforddiant rheolaidd i staff ar gyfraith diogelu data cymwys, y Polisi Diogelu Data hwn, polisïau cysylltiedig â materion diogelu data gan gynnwys, er enghraifft, hawliau'r unigolyn, caniatâd, sail gyfreithiol, Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a mynediad di-awdurdod at ddata personol;

(dd) cynnal profion rheolaidd ar y mesurau preifatrwydd a weithredir a chynnal adolygiadau ac archwiliadau cyfnodol er mwyn asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys defnyddio canlyniadau profion i ddangos yr ymdrech i wella cydymffurfiaeth.

## 11. 12. Data Personol Categori Arbennig

12.1 Oherwydd y sensitifrwydd penodol ynghylch prosesu data personol categori arbennig, mae'r Ddeddf Diogelu Data 2018 ('DPA 2018') yn gofyn fod gan S4C ddogfennaeth polisi mewn lle sydd yn esbonio gweithdrefnau S4C ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data (gweler adran 4.2 uchod) ac sydd yn esbonio polisïau S4C parthed cadw a dileu data personol categori arbennig (adran 9 uchod).

12.2 O'r herwydd, pan yn prosesu data personol categori arbennig, yn ogystal â'r materion amlinellwyd yn adrannau 5-11 uchod, dylid hefyd ystyried y materion amlinellir isod.

Data Personol Categori Arbennig Staff

12.3 Pan yn prosesu data personol categori arbennig staff, un ai ar y sail cyfreithiol fod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â, neu weithredu hawliau ym maes cyfraith cyflogaeth, neu fod prosesu yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd, dylid ystyried y canlynol yn benodol:

(a) sicrhau mai dim ond gydag unigolion sydd angen gwybod y wybodaeth y caiff y data personol categori arbennig ei rannu'n fewnol. Fel arfer, yr adran AD a rheolwr llinell yr aelod o staff fydd hyn. Dylid ystyried yn ofalus cyn rhannu ymhellach yn fewnol, a dylid gofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data;

(b) p'un ai yw'n bosibl i wneud y wybodaeth yn ddienw, er enghraifft wrth brosesu data personol categori arbennig ar gyfer monitor cyfleoedd cyfartal;

(c) i ba raddau y mae angen cadw'r data personol categori arbennig,

(ch) polisi Cadw Data S4C, gan fod y cyfnod cadw ar gyfer data personol categori arbennig yn gallu amrywio, ac mae angen cymryd gofal i sicrhau eich bod yn glynu wrth y cyfnod cywir ar gyfer cadw'r data dan sylw.

## 12. 13. Preifatrwydd o'r Cychwyn (By Design) a'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

13.1 Mae'n ofynnol i S4C sicrhau preifatrwydd o'r cychwyn wrth brosesu data personol drwy roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ac effeithiol ar waith, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data.

13.2 Mae'n rhaid i S4C asesu pa fesurau preifatrwydd o'r cychwyn y gellir eu rhoi ar waith ar bob rhaglen/system/proses sy'n prosesu data personol drwy ystyried y canlynol:

(a) y datblygiadau diweddaraf (h.y. y lefel uchaf o ddatblygiad cyffredinol, o ran dyfais, gweithdrefn, proses neu dechneg, a gyflawnwyd ar adeg benodol);

(b) cost gweithredu;

(c) natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion prosesu;

(ch) y tebygolrwydd y bydd y gweithgarwch prosesu yn peryglu hawliau a rhyddid unigolion a'i ddifrifoldeb.

13.3 Mae'n rhaid i S4C gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data mewn perthynas â gweithgarwch prosesu yr ystyrir ei fod yn risg uchel (er enghraifft lle mae data personol categori arbennig yn cael eu prosesu ar raddfa fawr).

13.4 Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data a chynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wrth roi rhaglenni newid busnes neu system fawr sy'n cynnwys prosesu data personol ar waith gan gynnwys:

(a) y defnydd o dechnolegau newydd (rhaglenni, systemau neu brosesau), neu dechnolegau newidiol (rhaglenni, systemau neu brosesau);

(b) prosesu awtomataidd gan gynnwys proffilio a phenderfyniadau awtomataidd;

(c) prosesu data categori arbennig ar raddfa fawr;

(ch) monitro ardal gyhoeddus yn systematig ar raddfa fawr (e.e. gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng).

13.5 Rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data gynnwys y canlynol:

(a) disgrifiad o'r gweithgarwch prosesu, ei ddibenion a buddiannau cyfreithiol y rheolydd data os yw'n briodol;

(b) asesiad o'r angen i brosesu a'i gymesuredd mewn perthynas â'i ddiben;

(c) asesiad o'r risg i unigolion;

(ch) y mesurau lliniaru risg sydd ar waith a ffyrdd o ddangos cydymffurfiaeth.

## 13. 14. Caniatâd

14.1 Mae'n rhaid i S4C sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu yn unol ag un neu fwy o'r seiliau cyfreithiol a nodir yn uchod, gan gynnwys caniatâd.

14.2 Er mwyn i unigolyn roi caniatâd dilys i brosesu ei ddata personol, mae'n rhaid i'r caniatâd a roddir fod yn wirfoddol, yn benodol, yn hyddysg a dylai ddangos yn glir ddymuniadau'r unigolyn sydd, drwy ddatganiad neu gam gweithredu cadarnhaol clir, yn dynodi ei fod yn cytuno y gellir prosesu data personol sy'n ymwneud ag ef.

14.3 Mae caniatâd yn gofyn am gamau gweithredu *cadarnhaol* felly nid yw distawrwydd, blychau wedi'u ticio ymlaen llaw neu anweithgarwch yn ddigonol.

14.4 Os rhoddir caniatâd mewn dogfen sy'n delio â materion eraill, yna rhaid cadw'r caniatâd hwnnw ar wahân i'r materion eraill hynny.

14.5 Mae'n rhaid i unigolion allu tynnu eu caniatâd i brosesu yn ôl yn hawdd ar unrhyw adeg a rhaid i'r cais hwnnw gael ei weithredu'n brydlon. Efallai y bydd angen adnewyddu'r caniatâd os yw S4C yn bwriadu prosesu data personol at ddiben gwahanol ac anghydnaws na chafodd ei ddatgelu pan roddodd yr unigolyn ei ganiatâd gyntaf.

14.6 Ni ddylid dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol dros brosesu os yw sail gyfreithiol arall, fwy priodol, yn gymwys.

14.7 Fel arfer, ni ddylid dibynnu ar ganiatâd lle ceir cydberthynas anghytbwys rhwng yr unigolyn ac S4C, er enghraifft yng nghyd-destun cydberthynas cyflogwr/cyflogai.

14.8 Fel arfer, mae angen caniatâd penodol ar gyfer y canlynol:

(a) Prosesu data personol categori arbennig (er y dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i bennu'r sail gyfreithiol fwyaf priodol dros brosesu data categori arbennig).

(b) Penderfyniadau awtomataidd;

(c) Trosglwyddo data ar draws ffiniau.

14.9 Mae caniatâd penodol yn gofyn am ddatganiad penodol a chlir iawn o ganiatâd gan yr unigolyn (hynny yw, nid camau gweithredu yn unig) a dylid rhoi gwybodaeth fanwl i'r unigolyn am y diben penodol y ceisir caniatâd penodol ar ei gyfer.

14.10 Bydd angen i staff gadw cofnodion o bob caniatâd fel bod S4C yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion caniatâd.

## 14. 15. Cyfyngiadau ar drosglwyddo data

15.1 Mae cyfraith diogelu data yn cyfyngu ar drosglwyddo data i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) er mwyn sicrhau na chaiff lefel y diogelwch a roddir i ddata unigolyn ei danseilio. Caiff data personol ei drosglwyddo o'r wlad wreiddiol ar draws ffiniau pan gaiff ei drosglwyddo, ei anfon, ei weld mewn gwlad wahanol neu pan geir mynediad iddo mewn gwlad wahanol.

15.2 Dim ond os yw un o'r amodau canlynol yn gymwys y gall S4C drosglwyddo data personol y tu allan i'r AEE:

(a) mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi penderfyniad yn cadarnhau bod y wlad y mae'r data personol yn cael eu trosglwyddo iddi yn gwarantu lefel ddigonol o ddiogelwch o ran hawliau a rhyddid yr unigolyn ('penderfyniad ar ddigonolrwydd');

(b) mae mesurau diogelwch priodol ar waith megis rheolau corfforaethol rhwymol (cymalau cytundebol safonol a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd), cod ymddygiad cymeradwy neu ddull ardystio;

(c) mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd penodol i'r broses drosglwyddo arfaethedig ar ôl cael ei hysbysu am unrhyw risgiau posibl; neu

(ch) mae angen i'r data gael ei drosglwyddo am un o'r rhesymau eraill a nodir o dan gyfraith diogelu data gan gynnwys cyflawni contract rhwng S4C a'r unigolyn, er budd y cyhoedd, er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol neu ddiogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn lle na all yr unigolyn roi caniatâd, yn gorfforol nac yn gyfreithiol ac, mewn rhai achosion cyfyngedig, er budd cyfreithlon S4C.

15.3 Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data cyn i ddata personol gael ei drosglwyddo y tu allan i'r AEE er mwyn sicrhau y bodlonir un o'r amodau a amlinellir uchod.

## 15. 16. Rhannu Data Personol

16.1 Yn gyffredinol, ni chaniateir i S4C rannu data personol â thrydydd partïon oni bai bod mesurau diogelwch a threfniadau cytundebol penodol ar waith.

16.2 Dim ond os oes angen i'r sawl sy'n derbyn y data personol gael y wybodaeth honno mewn perthynas â'i swydd a bod y broses drosglwyddo yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau cymwys ar drosglwyddo data ar draws ffiniau y gall staff rannu'r data personol a ddelir gan S4C â chyflogai arall, asiant neu gynrychiolydd.

16.3 Pan fydd S4C yn defnyddio sefydliadau allanol i brosesu data personol ar ei ran, bydd angen iddo roi trefniadau diogelwch ychwanegol ar waith mewn contractau â'r sefydliadau hynny i ddiogelu data personol.

16.4 Dylai staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i drafod y camau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth wrth lunio unrhyw gytundeb newydd neu newid unrhyw gytundeb sy'n bodoli eisoes.

## 16. 17. Hawliau unigolion a cheisiadau ganddynt

17.1 Mae gan unigolion hawliau o ran y ffordd y mae S4C yn trin eu data personol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

(a) derbyn gwybodaeth benodol am weithgareddau prosesu S4C mewn hysbysiad preifatrwydd (gweler adran 5.9 uchod);

(b) gwneud cais i weld y data personol y mae S4C yn eu cadw amdanynt (drwy wneud cais gwrthrych am wybodaeth) (mynediad);

(c) gofyn i S4C ddileu data personol os nad oes ei angen mwyach mewn perthynas â'r dibenion y'i casglwyd neu y'i proseswyd yn wreiddiol (dileu);

(ch) cywiro data anghywir neu gwblhau data anghyflawn (cywiro);

(d) cyfyngu ar weithgarwch prosesu mewn amgylchiadau penodol (cyfyngu);

(dd) mewn amgylchiadau cyfyngedig, dderbyn neu ofyn i'w data personol gael ei drosglwyddo i drydydd parti mewn fformat strwythuredig, cyffredin y gellir ei ddarllen â pheiriant (cludadwyedd data);

(e) tynnu caniatâd i brosesu yn ôl ar unrhyw adeg;

(f) atal S4C rhag defnyddio eu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol;

(ff) herio gweithgarwch prosesu sydd wedi'i gyfiawnhau ar sail buddiannau cyfreithlon S4C neu er budd y cyhoedd;

(g) gofyn am gopi o gytundeb y caiff data personol ei drosglwyddo y tu allan i'r AEE mewn perthynas ag ef;

(ng) gwrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio) sy'n cael effeithiau cyfreithiol neu effaith sylweddol ar unigolyn);

(h) atal gweithgarwch prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu drallod i'r unigolyn neu unrhyw un arall;

(i) cael eu hysbysu am fynediad diawdurdod at ddata sy'n debygol o beri risg fawr i'w hawliau a'u rhyddid;

(j) gwneud cwyn i'r awdurdod goruchwylio.

17.2 Mae'n rhaid i staff anfon unrhyw gais a dderbynnir mewn perthynas â'r hawliau a amlinellir uchod at Swyddog Diogelu Data S4C ar unwaith yn unol â pholisi Cyrchu Data Personol a Hawliau Unigol S4C. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod yn rhaid i S4C ymateb i gais dilys o fewn y terfynau amser a ragnodir yn gyfreithiol (o dan GDPR, rhaid gwneud hyn o fewn mis o'r dyddiad y derbynnir y cais o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau).

## 17. 18. Marchnata uniongyrchol

18.1 Mae S4C yn ddarostyngedig i reolau a deddfau preifatrwydd penodol wrth farchnata i unigolion.

18.2 Mae angen iddo gael caniatâd ymlaen llaw ar gyfer gweithgarwch marchnata uniongyrchol electronig (er enghraifft, drwy e-bost, neges destun neu alwadau awtomataidd). Mae eithriad cyfyngedig y gall S4C ei ddefnyddio o'r enw "optio i mewn meddal" sy'n ein galluogi i anfon negeseuon testun neu negeseuon e-bost marchnata os ydym wedi derbyn manylion cyswllt wrth ddarparu gwasanaethau i unigolyn, os ydym yn marchnata cynhyrchion neu wasanaethau tebyg ac os ydym wedi rhoi cyfle i'r unigolyn optio allan o farchnata wrth gasglu'r manylion am y tro cyntaf ac yn ystod pob gohebiaeth ddilynol.

18.3 Mae'n rhaid i'r hawl i wrthwynebu marchnata uniongyrchol (h.y. optio allan neu ddad-danysgrifio) gael ei chynnig yn benodol i'r unigolyn mewn ffordd ddealladwy fel bod modd gwahaniaethu'n glir rhyngddo a gwybodaeth arall, pan gaiff eu data personol ei gasglu ac yn ystod pob gohebiaeth ddilynol.

18.4 Rhaid parchu gwrthwynebiad unigolyn i farchnata uniongyrchol yn brydlon. Os bydd unigolyn yn optio allan ar unrhyw adeg, dylid atal eu manylion cyn gynted â phosibl. Mae atal yn golygu cadw digon o wybodaeth i sicrhau bod dewisiadau marchnata yn cael eu parchu yn y dyfodol.

## 18. 19. Prosesu Awtomataidd (gan gynnwys proffilio) a Phenderfyniadau Awtomataidd

19.1 Mewn termau cyffredinol, ni chaniateir gwneir penderfyniadau awtomataidd os bydd y penderfyniad yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg ar unigolyn oni bai:

(a) bod unigolyn wedi rhoi caniatâd penodol;

(b) caiff y gweithgarwch prosesu ei awdurdodi gan y gyfraith; neu

(c) mae angen cynnal gweithgarwch prosesu er mwyn cyflawni contract â'r unigolyn neu ymrwymo i gontract ag ef.

19.2 Os yw mathau penodol o ddata personol categori arbennig (gweler) yn cael eu prosesu, ni chaniateir defnyddio seiliau (b) neu (c) ond gellir prosesu'r cyfryw ddata personol categori arbennig os oes angen os ydyw o fudd sylweddol i'r cyhoedd, er enghraifft er mwyn atal twyll (oni bai y gellir defnyddio ffordd llai ymwthiol).

19.3 Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn seiliedig ar weithgarwch prosesu awtomataidd yn unig (gan gynnwys proffilio), yna rhaid i unigolion gael eu hysbysu bod ganddynt yr hawl i wrthwynebu hyn yn ystod yr ohebiaeth gyntaf â hwy (fan bellaf). Mae'n rhaid dwyn yr hawl hon i'w sylw yn benodol a'i chyflwyno'n glir ar wahân i wybodaeth arall. At hynny, mae'n rhaid rhoi mesurau addas ar waith i ddiogelu hawliau a rhyddid yr unigolyn a'i fuddiannau cyfreithlon.

19.4 Mae'n rhaid i'r unigolyn gael ei hysbysu hefyd yn yr hysbysiad preifatrwydd (gweler 5.9 uchod) o'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad neu'r proffilio, yr arwyddocâd a'r canlyniadau a ragwelir. Gall yr unigolyn hefyd ofyn am ymyrraeth ddynol, mynegi ei safbwynt neu herio'r penderfyniad.

19.5 Mae'n rhaid i staff gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ac mae'n rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data gael ei gynnal cyn i unrhyw weithgareddau prosesu awtomataidd (gan gynnwys proffilio) neu weithgareddau gwneud penderfyniadau awtomataidd gael eu cynnal.

## 19. 20. Rhoi Gwybod am Fynediad Diawdurdod at Ddata

20.1 Mae cyfraith diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i S4C, o dan rai amgylchiadau, hysbysu'r awdurdod goruchwylio perthnasol (at ein dibenion ni, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer) a gwrthrychau data unigol am fynediad diawdurdod at ddata.

20.2 Dylai staff fod yn ymwybodol mai ystyr mynediad diawdurdod at ddata yw unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n peryglu diogelwch, cyfrinachedd, cywirdeb neu argaeledd data personol neu'r mesurau diogelwch ffisegol, technegol, gweinyddol neu sefydliadol y mae S4C neu ein darparwyr gwasanaethau trydydd parti yn eu rhoi ar waith i'w diogelu. Gall hyn gynnwys colli data personol neu ddatgelu, caffael neu gael mynediad diawdurdod at ddata personol.

20.3 Os yw staff yn gwybod neu'n amau bod hyn wedi digwydd, ni ddylent geisio ymchwilio i'r mater eu hunain. Mae gan S4C Weithdrefn Rhoi Gwybod am Fynediad Diawdurdod at Ddata. Dylai staff fod yn gyfarwydd â'r weithdrefn hon a chysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar unwaith os bydd achos o'r fath yn digwydd yn unol â'r weithdrefn honno.

20.4 Dylai staff sicrhau eu bod yn cadw'r holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r achos posibl o gael mynediad diawdurdod at ddata personol.

## 20. 21. Eithriadau

21.1 Mae nifer o eithriadau sy'n gymwys i ddarpariaethau cyfraith diogelu data. Mae S4C yn ystyried y gall yr eithriadau canlynol fod yn gymwys i'w weithgareddau prosesu:

Newyddiaduraeth, llenyddiaeth neu gelfyddyd

21.2 Ni fydd rhai darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraith diogelu data yn gymwys pan fydd data personol yn cael ei brosesu gyda'r bwriad o'i gyhoeddi mewn perthynas â'r canlynol:

(a) dibenion newyddiaduraeth;

(b) dibenion celfyddydol; neu â

(c) dibenion llenyddol

ar yr amod bod S4C yn credu'n rhesymol y byddai'n fuddiol i'r cyhoedd pe bai'r data yn cael ei gyhoeddi (gan ystyried pwysigrwydd rhyddid mynegiant i fudd y cyhoedd) ac y byddai cymhwyso darpariaethau perthnasol cyfraith diogelu data yn anghydnaws ag un o'r dibenion a restrir uchod.

21.3 Mae'n rhaid i S4C ystyried Côd Darlledu Ofcom wrth benderfynu a fyddai cyhoeddi'r data er budd y cyhoedd:

21.4 Mae'n rhaid i'r Swyddog Diogelu Data awdurdodi unrhyw ddibyniaeth a roddir ar yr eithriad hwn.

Ymchwil ac ystadegau

21.5 Ni fydd rhai o ddarpariaethau mwy cyfyngedig cyfraith diogelu data yn gymwys pan fydd data personol yn cael eu prosesu:

(a) at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol, neu

(b) at ddibenion ystadegol.

21.6 Dim ond i'r graddau y byddai cymhwyso'r darpariaethau hynny yn atal neu'n amharu'n ddifrifol ar gyflawni'r dibenion dan sylw y mae'r eithriad hwn yn gymwys.

21.7 Dim ond i ddarpariaethau cyfraith diogelu data sy'n ymwneud â'r canlynol y mae'r eithriad hwn yn gymwys:

(a) gweithgarwch prosesu pellach. Nid ystyrir bod gweithgarwch prosesu pellach at ddibenion ymchwil hanesyddol neu ystadegol yn anghydnaws â'r diben cychwynnol y proseswyd y data personol mewn perthynas ag ef;

(b) cadarnhau gweithgarwch prosesu, mynediad at ddata a mesurau diogelwch ar gyfer trosglwyddiadau i drydedd wlad (lle nad yw canlyniadau'r ymchwil nac unrhyw ystadegau canlyniadol ar gael ar ffurf y gellir adnabod unigolyn ohoni);

(c) yr hawl i gywiro;

(ch) yr hawl i gyfyngu ar weithgarwch prosesu;

(d) gwrthwynebiadau i weithgarwch prosesu.

21.8 Mae'n rhaid i S4C sicrhau bod mesurau diogelwch priodol, ar ffurf mesurau technegol a sefydliadau, ar waith o hyd mewn perthynas â phrosesu data personol at ddibenion ymchwil hanesyddol neu ystadegol, yn benodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddor lleihau data.

21.9 Mae'n rhaid i'r Swyddog Diogelu Data awdurdodi unrhyw ddibyniaeth a roddir ar yr eithriad hwn.

## 21. 22. Canlyniadau methiant i gydymffurfio

22.1 Mae S4C yn cymryd y broses o gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data hwn o ddifrif. Mae methiant i gydymffurfio yn rhoi staff ac S4C mewn perygl. Mae pwysigrwydd y polisi diogelu data hwn yn golygu y gall methiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad arwain at gamau disgyblu, a all arwain at ddiswyddiad.

22.2 Ceidw S4C yr hawl i newid y Polisi Diogelu Data hwn ar unrhyw adeg heb rybudd. Dylai staff sicrhau bod ganddynt y copi diweddaraf o'r Polisi Diogelu Data hwn.

S4C – Diwygiwyd Mai 2019